Lleoli disgyblion y tu allan i'w Grŵp blwyddyn cronolegol

Canllaw i rieni a gofalwyr, lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, ysgolion, gweithwyr proffesiynol ac awdurdodau derbyn 2015/2016

Cynulleidfa darged: Penaethiaid, Cadeiryddion Llywodraethwyr, Tîm Rheoli'r Gwasanaeth Addysg, Derbyniadau

Derbyn y tu allan i'r grŵp oedran arferol

3.30 Er y caiff y rhan fwyaf o blant eu derbyn i ysgol o fewn eu grŵp oedran cronolegol, o bryd i'w gilydd, bydd rhieni yn gwneud cais am leoedd y tu allan i'w grŵp oedran arferol ar gyfer plant dawnus a thalentog, neu'r rheini sydd wedi cael problemau neu wedi methu rhan o flwyddyn, yn aml oherwydd salwch. Er na fyddai fel arfer yn briodol lleoli plentyn mewn grŵp blwyddyn nad yw'n cyd-fynd â'i oedran cronolegol, dylai awdurdodau derbyn ystyried y ceisiadau hyn yn ofalus a gwneud penderfyniadau ar sail amgylchiadau pob achos a thrwy ymgynghori â'r rheini a'r ysgol, ac yn benodol dylent ystyried yr hyn sydd fwyaf buddiol i'r plentyn. Dylid rhoi sylw dyledus hefyd i adroddiad y Seicolegydd Addysgol lle y bo ar gael, a rhesymau clir y gellir eu pennu dros wneud penderfyniad o'r fath.

3.31 Os penderfynir bod sail dros ystyried cais i leoli disgybl 'y tu allan i'r flwyddyn arferol', bydd gan rieni y gwrthodwyd eu cais am le mewn ysgol hawl statudol i apelio. Fodd bynnag, noder nad oes unrhyw hawl i apelio os bydd lle wedi'i gynnig ond nid yn y grŵp oedran dymunol.

Cod Statudol
Rhif dogfen y Cod Statudol: 005/2013
Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2013

Cyflwyniad

Yng Nghymru, yr arfer cyffredin yw i blant gael eu haddysgu mewn grwpiau blwyddyn mewn ysgolion fel y pennir gan eu dyddiad geni. Fodd bynnag, nid oes unrhyw rwystr statudol rhag derbyn plentyn y tu allan i'w grŵp oedran cronolegol. Mae awdurdodau derbyn ysgolion[1] yn gyfrifol am wneud penderfyniad p'un a gaiff plentyn ei dderbyn y tu allan i'r grŵp oedran cronolegol ai peidio.

Mae'n ofynnol iddynt wneud penderfyniad yn seiliedig ar amgylchiadau'r achos. (Fodd bynnag, os bydd gan blentyn Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, yr Awdurdod Lleol fydd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad a rhaid cadarnhau'r penderfyniad hwnnw mewn diwygiad i'r Datganiad.) Mae'r Awdurdod Lleol (ALl) yn argymell y dylid gwneud y penderfyniad drwy ymgynghori â'r rhieni[2], pob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â'r plentyn a'r ALl. Ni all awdurdodau derbyn bennu polisi cyffredinol sy'n datgan na chaiff unrhyw blant eu derbyn y tu allan i'w grwpiau blwyddyn cronolegol.

Diben y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth ddefnyddiol ac argymhellion i'r rheini sy'n asesu priodolrwydd derbyn plentyn y tu allan i'w grŵp blwyddyn cronolegol ('lleoliad y tu allan i'r grŵp blwyddyn'), yn seiliedig ar ofynion Cod Derbyn i Ysgolion 2013 a barn yr ALl. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r ddogfen ganlynol **Cod Derbyn i Ysgolion 2013**.

Y sail dros geisiadau y tu allan i'r grŵp blwyddyn

Mae nifer o resymau pam y gallai rhieni wneud cais i'w plentyn gael ei addysgu y tu allan i'w grŵp oedran cronolegol - naill ai flwyddyn yn uwch neu flwyddyn yn is. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau ar gyfer y plant canlynol:

- plant a aned cyn amser, a fyddai wedi cael eu derbyn i'r flwyddyn 'islaw' pe byddent wedi cael eu geni ar y dyddiad disgwyliedig;
- plant â phenblwydd tuag at ddiwedd yr haf (h.y. y rheini a aned rhwng dechrau mis Ebrill a diwedd mis Awst a fyddai'n cyrraedd oedran ysgol gorfodol yn ystod y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bump oed);
- plant â lefelau absenoldeb uchel oherwydd salwch;
- plant sy'n newydd i'r DU a/neu nad oes ganddynt lawer o brofiad o'r Gymraeg/Saesneg a/neu'r cwricwlwm;
- plant y mae eu cyrhaeddiad yn sylweddol is na'u cyd-ddisgyblion newydd pan fyddant yn symud ysgol, gan gynnwys achosion lle maent wedi symud ysgol sawl gwaith;
- plant y caiff pryderon am eu datblygiad personol, cymdeithasol a/neu emosiynol eu mynegi ar yr adeg y disgwylir iddynt ddechrau mewn dosbarth derbyn;

- plant y mae eu rhieni yn dewis gohirio penderfyniad i'w derbyn i'r ysgol hyd nes y bydd y plentyn yn cyrraedd oedran ysgol statudol, gan olygu y caiff y plentyn ei dderbyn i'r ysgol am y tro cyntaf ym mlwyddyn 1;
- plant y mae trasiedi neu drawma wedi effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant emosiynol;
- plant sy'n gorfforol eiddil neu'n agored i niwed oherwydd salwch neu anabledd;
- plant y disgwylir iddynt drosglwyddo i ysgol iau neu ysgol uwchradd ond sydd wedi cael eu haddysgu y tu allan i'w grŵp blwyddyn mewn ysgol fabanod neu ysgol gynradd ac y mae angen iddynt wneud cais i barhau y tu allan i'r grŵp blwyddyn cronolegol adeg trosglwyddo;
- plant y nodwyd eu bod yn ddawnus a thalentog ac y mae eu rhieni o'r farn y dylid eu haddysgu flwyddyn uwchben eu grŵp blwyddyn cronolegol.

---

1. Yr Awdurdod Lleol fydd yr awdurdod derbyn yn achos ysgolion cymunedol ac ysgolion a reolir yn wirfoddol
ac yn achos ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, corff llywodraethur ysgol fydd yr awdurdod derbyn.
2. Mae unrhyw gyfeiriad at 'riant/rhieni' yn y ddogfen hon hefyd yn cynnwys gofalwr/gofalwyr.

Safbwynt Awdurdod Lleol Casnewydd ar leoliadau y tu allan i'r grŵp blwyddyn
Dengys arfer da a sefydlwyd o fewn yr Awdurdod ac yn genedlaethol, ac eithrio o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, y gall ysgolion ddiwallu anghenion personol, cymdeithasol ac addysgol pob disgybl o fewn grŵp oedran priodol y disgybl hwnnw, a bod disgwyl yn rhesymol iddynt wneud hynny. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith ymchwil cyfredol (gweler Atodiad 1) yn nodi nad yw adleoli'r plentyn mewn grŵp blwyddyn ysgol gwahanol o unrhyw fudd sylweddol, a bod risgiau yn gysylltiedig â'r strategaeth hon, y dylid bob amser eu hystyried yn llawn. Mae'r ALl o'r farn bod lleoli disgybl y tu allan i'w grŵp oedran cronolegol yn strategaeth hynod ymwthiol. Fel y cyfryw, dylid bob amser sicrhau bod tystiolaeth amlwg bod strategaethau eraill llai ymwthiol, mwy cynhwysol wedi methu, neu eu bod yn annhebygol iawn o lwyddo i ddiwallu anghenion y plentyn.

Mae'r ALl yn disgwyl i awdurdodau derbyn wneud y canlynol:

- ymgynghori â Thîm Mynediad a Seilwaith yr ALl ar gam cynnar os byddant yn ystyried derbyn neu leoli disgybl y tu allan i'w grŵp blwyddyn cronolegol er mwyn galluogi'r ALl i gyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â darparu a threfnu lleoedd ysgol;
- gweithredu mewn ffordd sy'n cydymffurfio ag egwyddorion cydraddoldeb ac osgoi gwneud penderfyniadau mewn perthynas â lleoli plant y tu allan i'w grŵp blwyddyn cronolegol a gaiff effaith negyddol ar argaeledd lleoedd i ddisgyblion eraill y mae ganddynt yr hawl, yn ôl eu hoedran, i gael lle yn y grŵp blwyddyn hwnnw;
- ystyried a pharhau'n ymwybodol o reoliadau ac arfer lleol a all fod yn berthnasol wrth i'r disgybl ddatblygu y tu allan i'w grŵp blwyddyn cronolegol (e.e. o ran ariannu disgyblion, arholiadau, oedran gadael ysgol a chyfnodau trosglwyddo - yn enwedig os yw'n debygol yr ystyrir trosglwyddo'r disgybl i addysg arbennig yn ddiweddarach).

Yn arbennig, dylid ystyried y ffeithiau canlynol:

- gall ysgolion sy'n derbyn disgyblion adeg trosglwyddo (h.y. i ysgol iau, ysgol uwchradd neu ddarpariaeth arbennig) adolygu ac ailystyried y lleoliad y tu allan i'r flwyddyn arferol, ac ni ellir gwarantu y parheir i leoli'r disgybl y tu allan i'r flwyddyn arferol pan fydd yn trosglwyddo i ysgol newydd;
- bydd disgyblion sydd wedi cael eu haddysgu flwyddyn islaw eu grŵp blwyddyn cronolegol yn gymwys i adael yr ysgol cyn cwblhau cyrsiau arholiad;
- gall problemau godi yn ddiweddarach, gan na fydd hawl y disgybl i gyllid yn cyd-fynd â'i leoliad yn yr ysgol/coleg a gall hyn gael effaith ar y ddarpariaeth ar gyfer y disgybl a/neu barodrwydd/gallu'r ysgol/coleg yn y dyfodol i barhau i leoli'r disgybl y tu allan i'r flwyddyn arferol.

Mae ALl Casnewydd yn pwysleisio'r canlynol:

- ni ddylid lleoli plentyn mewn grŵp oedran fwy na blwyddyn yn wahanol i'w gyfoedion oedran ysgol o dan unrhyw amgylchiadau;
- ni ddylid cadw disgyblion mewn grŵp blwyddyn yn benodol er mwyn osgoi/gohirio penderfyniadau eraill e.e. ynghylch trosglwyddo i Gyfnod Allweddol arall, neu ysgol arbennig neu ddarpariaeth arbennig, o dan unrhyw amgylchiadau;
- dylai bob amser fod yn glir pa grŵp blwyddyn o ran y Cwricwlwm Cenedlaethol y mae disgyblion wedi'u cofrestru ar ei gyfer yn yr ysgol. Mae'n arfer da cofnodi'r wybodaeth hon ar adroddiadau blynyddol i rieni;
- rhaid bob amser ystyried anghenion y plentyn fel y meini prawf allweddol, yn hytrach nag, er enghraifft, drefniadaeth yr ysgol, ystyriaethau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm a threfniadau asesu;
- dylai ysgolion ac awdurdodau derbyn gysylltu â Phennaeth Cynorthwyol yr adran Addysg-Cynhwysianti gael cyngor ar gam cynnar o'r broses (gweler tudalen 8 am fanylion cyswllt).

Y gweithdrefnau a argymhellir/gofynnol ar gyfer gwneud penderfyniad ar leoliad y tu allan i'r grŵp blwyddyn

Ar gyfer ysgolion sy'n gweithredu fel eu hawdurdod derbyn eu hunain (ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol), argymhellir y gweithdrefnau canlynol fel arfer da. Ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion a reolir yn wirfoddol (os mai'r ALl yw'r awdurdod derbyn), mae'r gweithdrefnau yn arfer gofynnol.

- Er mwyn helpu awdurdodau derbyn a'r ALl i gyflawni eu cyfrifoldebau hirdymor mewn perthynas â disgyblion, dylai'r ysgol drefnu cyfarfod, gan gynnwys y rhieni a'r holl weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r plentyn. Gellir cynnwys y disgybl yn y cyfarfod cyfan neu mewn rhan o'r cyfarfod, fel y bo'n briodol ar gyfer ei oedran a'i allu i gymryd rhan.
- Dylid trefnu'r cyfarfod mewn da bryd, er mwyn gallu rhoi ystyriaeth lawn i'r achos ac (os cytunir ar leoliad y tu allan i'r grŵp blwyddyn) er mwyn gallu rhoi trefniadau derbyn/trosglwyddo â chymorth ar waith i'r disgybl gan gynllunio a pharatoi'n ddigonol ar gyfer diwallu ei anghenion yn y grŵp blwyddyn a bennir.
- Dylai awdurdodau derbyn fod yn ymwybodol o'r angen i ystyried ymhell ymlaen llaw unrhyw gynnig ar gyfer cyflymu neu ohirio'r broses drosglwyddo i ysgol iau neu ysgol uwchradd newydd. Ni ddylid gohirio'r drafodaeth tan yn union cyn yr adeg trosglwyddo.

Yn yr achosion hyn, dylid sicrhau bod cynrychiolydd o'r ysgol dderbyn arfaethedig yn bresennol.

- Lle nad yw'n bosibl i'r partïon a wahoddwyd fod yn bresennol, dylid gwneud cais am unrhyw safbwyntiau/ cyngor perthnasol yn ysgrifenedig er mwyn gallu eu hystyried yn y cyfarfod.
- Dylid gwahodd cynrychiolydd o'r Tîm Cynhwysiant i ddod i'r cyfarfod, er mwyn cynrychioli'r ALl.
- Dylid cymryd cofnodion llawn o'r cyfarfod a chytuno arnynt. Dylai'r cofnodion gynnwys datganiad clir o ran p'un a wneir unrhyw gytundeb gan yr awdurdod derbyn i leoli plentyn y tu allan i'w grŵp blwyddyn cronolegol gyda chefnogaeth yr ALl neu heb y gefnogaeth honno (p'un ai'r ALl yw'r awdurdod derbyn ai peidio), fel y mynegwyd gan gynrychiolydd y Tîm Cynhwysiant yn ystod y cyfarfod.
- Dylid gosod nodiadau'r cyfarfod, ynghyd ag unrhyw adroddiadau ysgrifenedig a ystyriwyd yn ystod y cyfarfod, yn barhaol ar ffeil y disgybl a'u trosglwyddo i unrhyw ysgol newydd adeg trosglwyddo. Dylid anfon copi o'r nodiadau hyn ac unrhyw adroddiadau ysgrifenedig at y Pennaeth Addysg Cynorthwyol hefyd drwy law'r swyddog a ddaeth i'r cyfarfod.
- Dylid anfon llythyr at y rhiant/rhieni yn cadarnhau canlyniad y cyfarfod ac yn gofyn iddynt gydnabod eu bod yn cytuno â'r ffeithiau a gofnodwyd a'r canlyniad fel y cytunwyd arno drwy ddychwelyd ffurflen wedi'i llofnodi (gweler y templed a awgrymir yn Atodiad 2).

Y broses mewn perthynas â phlant â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu Gynllun Addysg, Iechyd a Gofal (EHCP)

- Os oes gan blentyn Ddatganiad o AAA neu Gynllun Addysg, Iechyd a Gofal, dylid defnyddio'r cyfarfod Adolygu Blynyddol fel y cyfarfod ymgynghori a dylid gwahodd cynrychiolydd o'r Tîm Cynhwysiant i ddod i'r cyfarfod hwnnw. Dylai nodiadau'r cyfarfod Adolygu Blynyddol ddangos bod yr holl ffactorau perthnasol wedi'u hystyried, a dylent gofnodi safbwyntiau pob un a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn glir o ran p'un a ydynt o blaid unrhyw gais am leoliad y tu allan i'r flwyddyn arferol ai peidio.
- Bydd y Tîm Asesu a Darpariaeth AAA yn ystyried y wybodaeth sy'n deillio o'r Adolygiad Blynyddol yn y ffordd arferol ac yn cyfleu penderfyniad yr ALl i'r ysgol.
- Lle bydd yr ALl yn cytuno i leoli'r disgybl y tu allan i'r grŵp blwyddyn cronolegol, cyhoeddir diwygiad i Ddatganiad y plentyn.

Argymhellion i wneuthurwyr penderfyniadau

Mae Awdurdod Lleol Casnewydd yn gwneud yr argymhellion canlynol i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau am leoli disgyblion y tu allan i'w grŵp blwyddyn:

Er mwyn addysgu disgybl mewn grŵp blwyddyn flwyddyn *uwchlaw* ei grŵp blwyddyn cronolegol, dylai gwneuthurwyr penderfyniadau fodloni eu hunain o'r canlynol:

1. eu bod wedi casglu digon o dystiolaeth i ddangos bod y disgybl yn ddigon aeddfed yn bersonol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol i feithrin cydberthnasau cadarnhaol â'i gyd-ddisgyblion o fewn grŵp oedran hŷn;
2. bod y disgybl yn dangos diddordeb, sgiliau a chyflawniad deallusol eithriadol ym mhob maes pwnc, i'r fath raddau nad yw'n rhesymol disgwyl y bydd ymdrechion i wahaniaethu'r cwricwlwm o fewn ei grŵp blwyddyn cronolegol yn llwyddiannus;
3. nad yw aeddfedrwydd corfforol y disgybl yn golygu ei fod yn ddatblygiadol wahanol nac yn debygol o fod yn ddatblygiadol wahanol (yn y dyfodol) i'w grŵp arfaethedig o gyd-ddisgyblion mewn ffordd a fyddai'n cael effaith negyddol ar ei hunan-barch/hunanymwybyddiaeth (gan gynnwys ystyried blaenaeddfedrwydd);
4. bod y disgybl yn ddigon aeddfed yn gorfforol i fodloni gofynion y cwricwlwm a gofynion personol/cymdeithasol blwyddyn uwch o ran y Cwricwlwm Cenedlaethol (Gweler y rhestr wirio enghreifftiol yn Atodiad 3)

Er mwyn addysgu disgybl mewn grŵp blwyddyn flwyddyn *islaw* ei grŵp blwyddyn cronolegol, dylai gwneuthurwyr penderfyniadau fodloni eu hunain eu bod wedi casglu digon o dystiolaeth i ddangos y canlynol:

1. bod y disgybl yn dangos oedi sylweddol, a chynnydd cyfyngedig, o ran ei ddatblygiad personol ac emosiynol a sgiliau cymdeithasol sy'n briodol ar gyfer grŵp ifancach o gyd-ddisgyblion;
2. bod y disgybl yn dangos oedi sylweddol a chynnydd cyfyngedig o ran datblygiad deallusol/ sgiliau addysgol ar draws y meysydd pwnc, i'r fath raddau nad yw'n rhesymol disgwyl y bydd ymdrechion i wahaniaethu'r cwricwlwm o fewn ei grŵp blwyddyn cronolegol yn llwyddiannus;
3. nad yw aeddfedrwydd corfforol y disgybl yn golygu ei fod yn ddatblygiadol wahanol nac yn debygol o fod yn ddatblygiadol wahanol (yn y dyfodol) i'w grŵp arfaethedig o gyd-ddisgyblion mewn ffordd a fyddai'n cael effaith negyddol ar ei hunan-barch/hunanymwybyddiaeth (gan gynnwys ystyried blaenaeddfedrwydd). (Gweler y rhestr wirio enghreifftiol yn Atodiad 3)

Yn y naill achos a'r llall, dylai ysgolion fodloni eu hunain o'r canlynol:

- mai dyma yw dymuniad pawb sydd â Chyfrifoldeb Rhiant dros y plentyn a'u bod wedi cael gwybodaeth ddigonol am y goblygiadau sy'n gysylltiedig â lleoli disgybl y tu allan i'r flwyddyn arferol;

- bod dealltwriaeth glir ynghylch pam a sut y caiff anghenion y plentyn eu diwallu'n fwy effeithiol y tu allan i'w grŵp blwyddyn cronolegol nag a fyddai'n bosibl o fewn y grŵp blwyddyn hwnnw;
- bod rhiant/rhieni'r plentyn, yr ysgol, a'r holl weithwyr proffesiynol dan sylw yn cytuno mai dyma'r ddarpariaeth orau ar gyfer y plentyn;
- lle y bo'n briodol, yn ôl ei oedran a'i allu, mai dyma ddymuniad y plentyn hefyd;
- lle bo'r disgybl yn agosáu at drosglwyddo i Gyfnod Allweddol 3, yr ymgynghorwyd ag ysgolion uwchradd tebygol (neu ysgolion iau os yw'n berthnasol ar gyfer trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2);
- bod Tîm Derbyniadau'r ALl wedi cael ei hysbysu;
- bod y materion negyddol sy'n gysylltiedig â'r strategaeth hon (gweler Atodiad 1) wedi'u trafod yn llawn gyda'r rhiant/rhieni;
- y rhoddwyd ystyriaeth lawn i effaith debygol/posibl rheoliadau perthnasol ac arferol lleol wrth i'r
- disgybl ddatblygu y tu allan i'w grŵp blwyddyn cronolegol;
- lle bo Datganiad o AAA ar waith, yr ystyriwyd pob ffactor perthnasol, ac yr ymgynghorwyd â phob parti perthnasol, yn ystod yr Adolygiad Blynyddol. (Gweler y rhestrau gwirio enghreifftiol yn Atodiad 3).

Gohirio mynediad disgybl mewn ysgol gynradd

O dan y gyfraith, nid yw'n ofynnol i blentyn ddechrau yn yr ysgol tan ddechrau'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn bump oed. Lle y bydd yr awdurdod derbyn ar gyfer ysgol gynradd yn cynnig lleoedd mewn dosbarthiadau derbyn i rieni cyn bod eu plant yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol, rhaid iddynt roi'r dewis i rieni ohirio mynediad eu plentyn tan yn ddiweddarach yn ystod yr un flwyddyn ysgol.

Yr effaith yw y caiff y lle ei gadw i'r plentyn hwnnw ac na fydd ar gael i'w gynnig i blentyn arall. Fodd bynnag, ni fyddai'r rhiant yn gallu gohirio mynediad y plentyn y tu hwnt i ddechrau'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn bump oed, nac y tu hwnt i'r flwyddyn ysgol y derbyniwyd y cais gwreiddiol ar ei chyfer. Rhaid nodi hyn yn glir yn nhrefniadau derbyn yr ysgol.

Lle ceir ysgolion babanod ac iau ar wahân ond 'cysylltiedig', rhaid i'r trefniadau cyhoeddedig nodi'n glir y bydd angen i rieni plant yn yr ysgol fabanod wneud cais am leoedd yn yr ysgol iau ac nad yw'r ffaith bod y plentyn yn mynd i'r ysgol fabanod yn gwarantu lle iddo yn yr ysgol iau.

Os mai'r ysgol yw'r awdurdod derbyn, **rhaid** i'r pwyllgor derbyn a sefydlwyd gan y corff llywodraethu wneud penderfyniadau o'r fath[3]. **Ni ddylai** penderfyniadau ynghylch derbyn disgyblion gael eu gwneud gan un unigolyn mewn ysgol.

Os mae'r ALl yw'r awdurdod derbyn, rhaid i'r Pennaeth Addysg Cynorthwyol (Cynhwysiant) wneud y penderfyniad. Er y gall ALlau ddirprwyo eu holl swyddogaethau derbyn i gorff llywodraethu ysgol gymunedol neu ysgol a reolir yn wirfoddol, ni ddylent ddirprwyo ran o swyddogaethau awdurdod derbyn, megis y pŵer i wneud penderfyniadau ar geisiadau derbyn, i'r corff llywodraethu (neu'r Pennaeth).

Hawl rhieni i apelio/gwneud cwyn

Os penderfynir bod sail dros ystyried cais i leoli disgybl 'y tu allan i'r flwyddyn arferol', bydd gan rieni y gwrthodwyd eu cais am le mewn ysgol hawl statudol i apelio. Fodd bynnag, noder nad oes unrhyw hawl i apelio os bydd lle wedi'i gynnig ond nid yn y grŵp oedran dymunol. Fodd bynnag, gallant wneud cwyn, gan ddilyn gweithdrefn gwyno gyhoeddedig yr ysgol (neu weithdrefn gwyno'r Awdurdod Lleol yn achos ysgolion cymunedol ac ysgolion a reolir yn wirfoddol).

Yn achos plentyn â Datganiad o AAA, lle bydd yr ALl yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cais i leoli'r disgybl y tu allan i'r grŵp blwyddyn cronolegol, yna ar yr amod y gwnaed y cais hwn fel rhan o'r broses o gyflwyno'r Datganiad neu fel rhan o'r Adolygiad Blynyddol o'r Datganiad, bydd gan rieni yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys AAA. Nodir manylion 'Sut i Apelio' mewn gohebiaeth a anfonir at rieni gan y Tîm Cynhwysiant.

Rhagor o wybodaeth

- Cod Statudol Rhif dogfen y Cod Statudol: 005/2013. Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2013
- Polisi Casnewydd ar gyfer Derbyn i Ysgolion www.newport.gov.uk/schooladmissions

Manylion cyswllt

Tîm Cynhwysiant Casnewydd
Ffôn: 01633 656656
E-bost: inclusion.enquiries@newport.gov.uk
Gwefan: www.newport.gov.uk

Tîm Derbyn i Ysgolion
Ffôn: 01633 656656
E-bost: school.admissions@newport.gov.uk

3. Rheoliadau a wnaed o dan Adrannau 21 a 138 o Ddeddf 1998; ac Adrannau 19-21, 23-25, 34-36, 210 a 214 o Ddeddf Addysg 2002.

Atodiad 1 - sail y dystiolaeth (gyda diolch i ALl Blackburn)

Daw'r sail dystiolaeth gyfredol yn bennaf o UDA a Chanada, lle y defnyddiwyd system "cadw graddau" yn helaeth fel mater o drefn. Fe'i hadolygwyd gan ALl Blackburn yn 2006 a cheir crynodeb o'r adolygiad hwnnw isod.

Ni ddaeth ALl Blackburn ar draws unrhyw bapurau cyhoeddedig a ddangosodd ganlyniadau cadarnhaol ar ôl ailadrodd blwyddyn yn yr ysgol, nac a werthusodd effeithiau gosod plentyn o fewn grŵp blwyddyn hŷn.

Noda casgliadau perthnasol o'r gwaith ymchwil am blant a gaiff eu gosod mewn grŵp blwyddyn ifancach y canlynol:

- Mae plant a gaiff eu cadw nôl flwyddyn yn wynebu anawsterau academaidd.
- Roedd plant mewn ysgolion â pholisi o'u symud i fyny gyda'u cyfoedion yn dysgu mwy o ran darllen a mathemateg na'r rheini a oedd mewn ysgolion lle roedd rhai plant yn ailadrodd blwyddyn.
- Gan edrych ar blant y gohiriwyd eu datblygiad, gwnaeth y rheini a symudodd i fyny gyda'u cyfoedion tua'r un cynnydd â'r rheini a ailadroddodd flwyddyn o ran eu cyflawniad ac o ran barn athrawon am eu cynnydd.
- Roedd plant a ddechreuodd yr ysgol flwyddyn yn hwyr yn dueddol o ddangos yr un problemau â'r problemau a oedd ganddynt i ddechrau.
- Mae plant a gaiff eu cadw nôl flwyddyn yn aml yn pryderu am eu statws ymhlith eu cyfoedion. Maent yn dueddol o ystyried y profiad yn brofiad negyddol a dryslyd.
- Wrth iddynt symud i fyny drwy'r ysgol, mae plant sy'n parhau i weithio mewn dosbarth ifancach yn dangos iechyd emosiynol gwaeth ac mae llawer ohonynt yn nodi eu bod yn cael eu bwlio gan nad ydynt gyda'u cyfoedion.
- Nid oedd problemau o ran y gallu i ganolbwyntio yn gwella drwy ofyn i blentyn ailadrodd blwyddyn.
- Hyd yn oed wrth ddefnyddio "addysgu dal i fyny", ni welwyd unrhyw wahaniaeth o ran hunangysyniad nac ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth rhwng myfyrwyr a ailadroddodd flwyddyn a'r rheini a symudodd i fyny.
- Mae ailadrodd blwyddyn yn yr ysgol, yn enwedig yn achos pobl o leiafrifoedd ethnig, yn cael effaith andwyol ar ragolygon cyflogaeth.

Roedd sylwadau o'r llenyddiaeth yn cynnwys y canlynol:

- "Nid oedd cadw disgyblion yn ôl yn effeithiol wrth wella cyflawniad a gallu."
- "Anaml y gwelir cymaint o astudiaethau â chasgliad tebyg mewn gwaith ymchwil addysgol: nid yw cadw disgyblion yn ôl yn ymyriad llwyddiannus o ran helpu myfyrwyr yn academaidd nac yn bersonol."
- "Er na fydd gohirio mynediad a dosbarthiadau parodrwydd yn cael effaith andwyol ar blant yn y byrdymor, nid oes unrhyw dystiolaeth o effaith gadarnhaol o ran cyflawniad ysgol na thystiolaeth o'r gallu i addasu yn yr hirdymor. At hynny, erbyn y glasoed, mae'r arfer o gadw disgyblion yn ôl ar gam cynnar yn rhagfynegi llawer o ffactorau risg emosiynol a risg i iechyd, a chanlyniadau andwyol cysylltiedig."

Atodiad 2 - Templed o'r llythyr i rieni yn dilyn cyfarfod i drafod lleoli disgybl y tu allan i'w flwyddyn arferol

Annwyl
Cais i leoli , Dyddiad Geni y tu allan i'w grŵp blwyddyn cronolegol o fis Medi .

Diolch yn fawr iawn i chi am gyfarfod â ni ar . Roedd yn ddefnyddiol iawn cyfarfod â chi a hefyd a a oedd yn cynrychioli . Rwyf yn gwerthfawrogi'r holl wybodaeth a gyflwynwyd gennych yn fawr ac yn deall eich bod yn gadarn o'r farn y dylai **ailadrodd/ohirio ei flwyddyn/blwyddyn derbyn** yn yr ysgol. Yn y bôn, y rheswm am hyn yw **eich bod chi/ein bod ni** o'r farn y gellir dangos tystiolaeth na fyddai yn gallu ymdopi â **blwyddyn 1** a bod mewn dosbarth gyda'i grŵp blwyddyn cronolegol.

Gwnaethoch ddatgan yn glir eich bod yn awyddus i **ailadrodd/ohirio ei flwyddyn/blwyddyn yn y dosbarth derbyn**. **Cadarnhaodd /ni allai gadarnhau,** yn seiliedig ar ei farn broffesiynol ei fod yn gadarn o blaid y trefniant hwn.

Nodwyd bod yr ALl o'r farn y dylai ysgolion allu sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pob plentyn a lle bo ysgol yn awyddus i symud plentyn o'i grŵp blwyddyn cronolegol, y byddai'r penderfyniad hwnnw yn cael ei wneud oherwydd tystiolaeth a ddarparwyd i ategu'r rhestr wirio o ystyriaethau.

Fel **Pennaeth /swyddog sy'n cynrychioli'r Awdurdod Lleol**, cefais gyfle i drafod goblygiadau addysgu eich plentyn y tu allan i'w grŵp blwyddyn cronolegol gyda chi. Roedd hyn yn hanfodol er mwyn i chi ddeall y gall problemau godi yn ddiweddarach mewn perthynas â'r ddarpariaeth addysg ar gyfer eich plentyn. Gweler tudalen 'Lleoli disgyblion y tu allan i'w grŵp blwyddyn cronolegol'.

Yn yr achos hwn, **rwyf/rydym** wedi ystyried yr holl dystiolaeth a ddarparwyd ac wedi penderfynu **y dylid/na ddylid lleoli eich mab/merch** y tu allan i'w grŵp blwyddyn cronolegol. Mae pob parti yn cytuno y dylai'r ysgol fonitro cynnydd yn ofalus er mwyn sicrhau, yn y dyfodol, os bydd newid sylweddol, y gellir ailystyried y trefniant hwn.

Cynhwysir manylion llawn am addysgu disgyblion y tu allan i'w grŵp blwyddyn yn y canllawiau amgaeedig 'Lleoli disgyblion y tu allan i'w grŵp blwyddyn cronolegol'.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gwblhau a dychwelyd y ffurflen atodedig er mwyn cadarnhau eich bod yn cytuno â chynnwys y llythyr hwn ac yn ei ddeall.

Dymuniadau gorau i y flwyddyn nesaf.

Yn gywir,

Ffurflen ymateb

Rwyf yn cytuno â chynnwys y llythyr gan _____ dyddiedig _____ yn disgrifio canlyniadau ein cyfarfod ar ac yn ei ddeall. Rwyf yn fodlon ar y penderfyniad a wnaed gan bob parti **y dylid/na ddylid** addysgu fy **mab/merch** _____ y tu allan i'w grŵp blwyddyn cronolegol am y tro ac y caiff y penderfyniad hwn ei adolygu.

Llofnodwyd:_____ Enw:_____

Dyddiad:_____

Atodiad 3 - Rhestr Wirio Ashton

Dylid bodloni'r holl feini prawf hyn cyn lleoli plentyn y tu allan i'w grŵp blwyddyn cronolegol:

Plentyn/Person Ifanc_____ Dyddiad Heddiw_____

Cwblhawyd y rhestr wirio gan_____

Mae'r ysgol, y rhieni, y plentyn a'r holl weithwyr proffesiynol cysylltiedig o'r farn y byddai'r lleoliad hwn yn gwella'r tebygolrwydd y caiff y plentyn ei gynnwys yn llwyddiannus mewn ysgol prif ffrwd yn sylweddol.	
Ni wneir y penderfyniad hwn er mwyn gohirio ymyriadau eraill, megis lleoli'r plentyn mewn ysgol wahanol.	
Ni wneir y penderfyniad hwn oherwydd anawsterau wrth gynnig darpariaeth wedi'i gwahaniaethu'n briodol yn y dosbarth y dylai'r plentyn drosglwyddo iddo fel arfer.	
Ni fyddai lleoli'r plentyn yn mynd yn groes i reoliadau o ran maint dosbarthiadau babanod.	
Rhoddwyd ystyriaeth i hawliau plant eraill a fyddai o bosibl yn cael y lle hwnnw fel arall.	
Rhoddwyd ystyriaeth i effaith emosiynol a chymdeithasol hirdymor y lleoliad hwn.	
Rhoddwyd ystyriaeth i leoliadau tebygol ar gyfer y plentyn yn y dyfodol, e.e. dychwelyd i'w grŵp blwyddyn ei hun neu aros gyda'r grŵp blwyddyn newydd.	
Cafwyd trafodaeth gyda'r rhieni am broblemau tebygol yn y dyfodol, e.e. gadael ysgol heb gwblhau Cyfnod Allweddol 4.	
Mae pawb sy'n rhan o'r broses o'r farn y bydd y plentyn yn gallu dysgu mwy gan y plant yn y grŵp blwyddyn arfaethedig na phlant yn ei grŵp oedran ei hun.	
Bydd gan y plentyn grŵp cyfoedion yn ei ddosbarth newydd sy'n debygol o barhau i fod yn rhywle y gall y plentyn ymaddasu iddo wrth i'r garfan aeddfedu.	
Mae'r cynllun ar gyfer y plentyn yn cynnwys ymyriadau i ymdrin â'i anghenion penodol, yn ogystal â'i leoli gyda grŵp blwyddyn gwahanol.	

(h) Blackburn gyda Darwen MBC

Ynglŷn â'r Rhestr Wirio hon Rebecca Ashton a'i Chydweithwyr yn Blackburn a ddatblygodd y rhestr wirio hon. Fe'i defnyddir yn gynyddol gan Awdurdodau Lleol eraill sy'n nodi ei bod yn ddefnyddiol iawn. **Dylid bod yn ofalus wrth ei defnyddio. NID** yw ticio pob blwch yn arwydd y dylid lleoli plentyn y tu allan i'w flwyddyn arferol. Dim ond arwydd y dylid ystyried cymryd camau o'r fath ydyw. **Dylai penderfyniad i leoli plentyn y tu allan i'r grŵp blwyddyn cronolegol fod yn benderfyniad anarferol iawn**